**PAPURAU BUSNES**

**Rhan I - Adran D**

**Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 20 Mehefin 2000**

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**(Dangosir Rhif Gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros yr Amgylchedd

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Beth oedd y meintiau a gofnodwyd ar gyfer Banciau Nash a Helwick ym mhob un o flynyddoedd y degawd diwethaf. (WAQ6157)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pryd fydd yr astudiaeth i Dywod a Graean Môr Hafren yn cael ei gyhoeddi. (WAQ6158)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa sylwadau a dderbyniodd gan Bwyllgor Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mewn perthynas â datblygiad arfaethedig fferm wynt gerllaw'r Parc. (WAQ6159)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau mae'n bwriadu eu cynnal gyda'r cyrff perthnasol ynghylch datblygiad arfaethedig fferm wynt gerllaw Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. (WAQ6160)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff adrodd ar y canllawiau sy'n rhwystro ffermydd gwynt rhag cael eu datblygu mewn Parciau Cenedlaethol neu ardaloedd cyfagos. (WAQ6161)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff ddatganiad ynghylch a ydyw datblygiad arfaethedig fferm wynt gerllaw Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cydymffurfio â pholisi datblygu cynaliadwy y Cynulliad ai peidio. (WAQ6162)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff restu’r cynlluniau cefnogi busnes sydd ar gael, ynghyd â maint y busnesau yr anelwyd y cynlluniau atynt, o ran nifer y gweithwyr. (WAQ6163)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff restru’r dulliau cefnogi sy’n cael eu cynnig i gyrff yng Nghymru i ennill gwobrwyon clodfawr megis Gwobr y Frenhines am Fenter. (WAQ6164).